

CYMWYSTERAU CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

CYMWYSTERAU CYMRU

**Penodi Aelod
(Cyllid)**

Dyddiad cau: 25 Ionawr 2019



Rheoleiddiwyd gan y
Comisiynydd Penodiadau
Cyhoeddus

Cymwysterau Cymru

Cynnwys

Tudalen

Gwneud cais

3

Atodiad A: Rôl y Cadeirydd / Aelod

5

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Cymwysterau Cymru

8

Atodiad C: Y broses ddethol

9

Cymwysterau Cymru

Gwneud cais

Diolch am ddangos diddordeb yn y penodiad i swydd aelod (mae dwy swydd wag ar y Bwrdd) i Fwrdd Cymwysterau Cymru. Bydd pob aelod newydd yn chwarae rhan flaenllaw drwy herio pob rhan o fusnes Cymwysterau Cymru, mewn ffordd adeiladol, i sicrhau y creffir ar bob agwedd ar ei strategaeth, ei gyfeiriad a'i ddull gweithredu o ran effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Cymwysterau Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i'r dudalen penodiadau cyhoeddus ar wefan Llywodraeth Cymru yma <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-99bfc2f82196/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Bwrdd Cymwysterau Cymru ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen i chi gofrestru, a thrwy wneud hynny, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu cyflwyno, trwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd y ffurflen gais ar gael ichi ei llenwi. I wneud cais, bydd angen i chi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' o'r ffurflen ymgeisio ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol a ddarparwch sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn hirach na dwy dudalen. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os ydych yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	25 Ionawr 2019
Dethol y rhestr fer:	1 Chwefror 2019
Cyfweliadau:	Wythnos yn dechrau: 18 Chwefror 2019

Cymwysterau Cymru

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol y gall fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Cysylltu:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol

Ffôn: 029 2082 5454

E-bost: PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Bwrdd Cymwysterau Cymru a rôl Aelodau'r Bwrdd, cysylltwch â naill ai:

Rebecca Olney, Cangen Nawdd Cymwysterau Cymru ar:

Ffôn: 03000 256959

E-bost: Rebecca.Olney@llyw.cymru

Helen Bushell, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol Cymwysterau Cymru ar:

Ffôn: 07711 819665

E-bost: Helen.Bushell@cymwysteraucymru.org

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y swydd hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 029 2082 5454 neu drwy anfon e-bost i PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Penodi Aelod i Fwrdd Cymwysterau Cymru

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a Chyfrifoldebau Aelodau'r Bwrdd

1. Rhoi cyfeiriad ac arweinyddiaeth strategol, gan hyrwyddo perfformiad uchel a dal y corff i gyfrif yn erbyn ei gynlluniau strategol a chorfforaethol.
2. Sicrhau priodoldeb, rheoleidd-dra, darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yng ngwaith y corff ac y dilynir saith egwyddor bywyd cyhoeddus (egwyddorion Nolan).
3. Ynghyd ag aelodau eraill y Bwrdd, sicrhau bod y corff yn cyflawni ei nodau a'i amcanion statudol.
4. Gweithredu fel hyrwyddwr y sefydliad, a'i nodau a'i amcanion. Bod yn fodel rôl ar gyfer staff a rhanddeiliaid.
5. Cydweithio i feithrin perthynas â phob unigolyn a grŵp perthnasol, gan gynnwys adrannau allweddol o fewn Llywodraeth Cymru, yn enwedig yr Adran Addysg a Sgiliau.

Manyleb y person

Tasgau Allweddol

Bydd yr aelodau yn helpu'r Cadeirydd i gyflawni cyfrifoldebau'r Bwrdd o ran: -

- pennu cyfeiriad a pholisïau strategol y corff;
- sicrhau bod y corff yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol;
- sicrhau bod y corff yn cael ei reoli'n briodol ac yn effeithiol, er mwyn gweithredu mewn ffordd briodol, ddarbodus, effeithlon ac effeithiol;
- sicrhau ei fod yn ddoeth wrth wario'r arian cyhoeddus a roddwyd i'r sefydliad.

Bydd yr aelodau hefyd yn helpu'r Cadeirydd i gynrychioli'r Bwrdd. Disgwylir i'r aelodau:

- greu Bwrdd effeithiol, drwy annog aelodau'r Bwrdd i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau ar y cyd, a chadeirio, neu gymryd rhan yn ôl y gofyn, mewn un neu ragor o bwyllgorau'r Bwrdd;

Cymwysterau Cymru

- sicrhau bod y corff cyfan yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am benderfyniadau'r Bwrdd;
- hyrwyddo cysylltiadau effeithiol a chyfathrebu agored, rhwng aelodau'r Bwrdd, y tîm gweithredol a staff o fewn y corff;
- gweithio gyda'r holl bartïon a'r sefydliadau eraill sydd â buddiant yng ngwaith y corff a'u cynrychioli'n llawn mewn modd gonest a chadarnhaol.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer penodi.

Meini Prawf Hanfodol

Mae Cymwysterau Cymru yn edrych am ddau aelod newydd sydd ag arbenigedd yn y meysydd canlynol:

1. Cwricwlwm – profiad o lunio a gweithredu cwricwlwm ysgol uwchradd (1 swydd)
 - Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn uwch arweinydd sydd wedi bod yn uwch arweinydd yn ddiweddar sydd â phrofiad o ddatblygu a gweithredu cwricwlwm uwchradd. Gan eich bod wedi datblygu, gweithredu a gwerthuso cwricwlwm eich ysgol, byddwch yn deall yr heriau ynghlwm â hyn a'r manteision posibl i ddysgwyr. Byddwch yn gweithredu mewn dull sy'n rhoi'r dysgwr yn gyntaf ac yn ein helpu i sicrhau bod dysgwyr wastad wrth galon yr hyn a wnawn
2. Cyllid – profiad o ddarparu goruchwyliaeth ariannol strategol ac arbenigol, dealltwriaeth dda o gyllid yn y sector cyhoeddus yn ddelfrydol. (1 swydd)
 - Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus gymhwyster cyfrifyddiaeth cydnabyddedig (yn ddelfrydol, gan Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig) a bydd ganddo brofiad o weithio ar lefel Bwrdd neu Bwyllgor yn darparu goruchwyliaeth ariannol strategol ac arbenigol. Byddwch yn gyfforddus yn rhoi arweiniad i aelodau'r Bwrdd ac yn gallu cydweithio â'ch cyd-aelodau wrth ystyried materion ariannol ar gyfer y sefydliad dros y tymor byr a'r tymor hirach.

Rhaid i chi hefyd ddangos (ar gyfer y ddwy swydd):

- y gallu i gynrychioli Cymwysterau Cymru yn gyhoeddus, ac i drafod materion yn effeithiol ar lefel uwch a chyda'r prif randdeiliaid;
- y gallu a'r profiad i graffu ar ein gwaith er mwyn sicrhau y gellir rheoli unrhyw ddiwygiadau i gymwysterau, a bod y cymwysterau hynny yn ennyn diddordeb ac yn diwallu'r weledigaeth a fwriedir;
- y gallu i gyflwyno syniadau ffres mewn trafodaethau am faterion ymarferol a strategol y tu allan i faes eich arbenigedd;

Cymwysterau Cymru

- dealltwriaeth dda o waith Cymwysterau Cymru a'r gwaith y mae'n ei wneud gyda rhanddeiliaid;
- y gallu i oruchwylio, cyfarwyddo a/neu wneud penderfyniadau mewn cyfnodau gwleidyddol neu ariannol ansicr;
- dealltwriaeth eang o faterion sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru. Gallai'r ymgeiswyr fod wedi datblygu'r wybodaeth hon drwy wneud unrhyw fath o waith, gan gynnwys gweithio yn y gymuned, gwaith gwirfoddol neu gefndir proffesiynol. Bydd gennych werthfawrogiad cryf o anghenion dysgwyr yn y Gymru fodern

Meini prawf dymunol

- Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Cymwysterau Cymru, Adeilad Q2, Lôn Pencarn, Parc Imperial, Coedcernyw Casnewydd, NP10 8AR
Ymrwymiad amser:	36 diwrnod y flwyddyn (ar y mwyaf) – nid oes disgwyl i hyn fod yn fwy na 3 diwrnod y mis ar gyfartaledd (a bydd yn llai yn ystod rhai cyfnodau).
Hyd y penodiad:	3 blynedd
Tâl:	£282 y diwrnod ar sail yr ymrwymiad amser mwyaf o 36 diwrnod y flwyddyn ynghyd â chostau teithio a chostau eraill o fewn rheswm.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais

Dylai ymgeiswyr nodi fod aelodau Bwrdd Cymwysterau Cymru wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.] <http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/1536/contents/made>

Bydd rhaid i'r sawl sy'n cael eu penodi gwblhau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn cael eu cadarnhau yn y swydd.

Gwrthdaro o ran buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o Gymwysterau Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl yn Cymwysterau Cymru.

Trafodir unrhyw wrthdaro buddiannau yn y cyfweiliad. Os cewch eich penodi, bydd hefyd yn ofynnol i chi ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Cymwysterau Cymru

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus, ac mae'r ddogfen hon ar gael yma:

<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf>

Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Cymwysterau Cymru

Cefndir

Trosolwg

Ym mis Medi 2015, daeth Cymwysterau Cymru yn gyfrifol am reoleiddio cyrff dyfarnu ac am sicrhau ansawdd cymwysterau yng Nghymru ac eithrio graddau. Mae Cymwysterau Cymru, fel corff statudol annibynnol, mewn sefyllfa dda i sicrhau bod y cymwysterau a gynigir yng Nghymru yn cyflawni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi.

Cymwysterau Cymru yw'r prif awdurdod ar gymwysterau yng Nghymru, a bydd yn rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion Cymru ar faterion perthnasol yn ogystal â gwybodaeth, cyngor a chymorth i amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae'n cyfathrebu ynghylch gwerth ein cymwysterau yng Nghymru a thu hwnt.

Bydd Cymwysterau Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Mae'n cymryd penderfyniadau proffesiynol ac annibynnol ar gymwysterau. Mae'n arwain ar agweddau ar ddatblygu polisi cymwysterau. Mae'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch sut mae wedi cyflawni ei swyddogaethau, a sut mae'n bwriadu eu cyflawni.

Llywodraethiant

Mae'r corff yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n atebol felly am y ffordd y mae'n rheoli ei gyllid cyhoeddus. Fodd bynnag, mae gan Gymwysterau Cymru rhywfaint o annibyniaeth i gyflawni ei swyddogaethau cymwysterau, ac mae'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru amdanynt. Mae gan Fwrdd Cymwysterau Cymru Gadeirydd annibynnol a rhwng 8 a 10 o aelodau anweithredol.

Mae'r broses o benodi aelodau anweithredol yn dilyn Cod Ymarfer y Comisiynydd ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus.

Rôl y Bwrdd

Rôl y bwrdd yw llywodraethu'n gryf ac arwain yn effeithiol, a datblygu cynllun strategol ar gyfer Cymwysterau Cymru a phennu amcanion heriol. Mae'r bwrdd yn hyrwyddo safonau uchel o atebolrwydd cyhoeddus ac yn cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian. Mae'n sicrhau bod gweithgareddau Cymwysterau Cymru yn cael eu cyflawni yn effeithlon ac yn effeithiol, a bydd yn monitro perfformiad i sicrhau bod y corff yn cyflawni'n llawn ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad.

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu trefniadau llywodraethu trosfwaol ac yn dirprwyo ei swyddogaethau i swyddogion drwy gynllun dirprwyo sy'n cwmpasu materion ariannol ac anariannol.

Mae dolenni i rai dogfennau isod er gwybodaeth i chi: (HB add links)

- *Cynllun Busnes 18-19 Cymwysterau Cymru*

Cymwysterau Cymru

- *Strategaeth 18-22 Cymwysterau Cymru a Strategaethau Cymwysterau Cyffredinol, Cymwysterau Galwedigaethol a Strategaethau Corfforaethol ategol*
- *Animeiddiadau Cymwysterau Cymru (i roi cyd-destun i'n rôl a'n diwylliant)*

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i bennu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth a ddarparwch yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Caiff y panel dethol ei gadeirio gan Ann Evans, (Cadeirydd Bwrdd Cymwysterau Cymru) a bydd hefyd yn cynnwys Steve Davies, (Cyfarwyddwr Addysg, Llywodraeth Cymru) ac Aelod Annibynnol o'r Panel.

Mae'n bosibl y bydd eich cais yn cyrraedd y rhestr hir, yn ddibynnol ar nifer y ceisiadau a geir, cyn ei drosglwyddo i banel y rhestr fer ei ystyried. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan bob aelod o'r panel mewn sefyllfa o'r fath.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Ionawr 2019 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad ym mis Chwefror 2019.

Bydd y panel yn dewis yr ymgeiswyr cryfaf yn unig i gael cyfweiliad, sef yr ymgeiswyr y mae o'r farn eu bod wedi dangos eu bod yn bodloni orau y meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol sylfaenol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac nad yw dyddiad y cyfweiliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl i chi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad a drefnwyd ar gyfer y cyfweiliad, byddwn yn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu pryd bydd y panel dethol ar gael.

Cewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod i chi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal y cyfweiliadau yn swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Cymwysterau Cymru

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a nhw fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwllch rhwng dyddiad y cyfweiliad a phan fydd y penderfyniad terfynol ynghylch y penodiad yn cael ei wneud. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweild yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, fe gewch lythyr yn eich penodi fel aelod o Fwrdd Cymwysterau Cymru a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Bydd y llythyr, felly, yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.